| | |
|---|---|
| **Teitl** | **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (GBCG) / Hwb** |
| **Rhif yr eitem** | **5** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **19 Tachwedd 2024** |

**Ystyried a rhoi sylwadau ar y materion canlynol:**

**Cefndir**

Sefydlodd y BGC Grŵp Gorchwyl a Gorffen GBCG / Hwb fel rhan o'i **Amcan Llesiant: Trechu Tlodi a'i effeithiau.**

Mae'r camau allweddol yn cynnwys:

- Yn y tymor byr, i ymchwilio, dadansoddi a pharatoi mewnwelediad ar y cyfleoedd a'r rhwystrau o ran Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif ar draws sefydliadau y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Ymchwilio, dadansoddi a pharatoi mewnwelediad ar y cyfleoedd a'r rhwystrau o ran yr Hwb.
- Paratoi mewnwelediad o'r heriau allweddol sy'n wynebu ein preswylwyr a'n cymunedau, gan ystyried yn benodol y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a grwpiau gwarchodedig.
- Ystyried dulliau sefydliadol o fynd i'r afael â thlodi ac unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n cael eu datblygu / sydd wedi'u cymeradwyo.
- Paratoi cynigion clir i'w cymeradwyo gan y BGC a chyd-gynhyrchu dulliau i wella Llesiant a dangos ein cyfraniad i'r Pum Ffordd o Weithio.

**Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif**

Mae Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yn ddull o newid ymddygiad sy'n defnyddio'r miliynau o ryngweithiadau o ddydd i ddydd sydd gan sefydliadau ac unigolion â phobl eraill i'w cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol. Mae'n galluogi cyflwyno gwybodaeth ffordd o fyw iach gyson a chryno ac yn galluogi unigolion i gymryd rhan mewn sgyrsiau am eu hiechyd ar raddfa ar draws sefydliadau a phoblogaethau.

Nod dull GBCG yw grymuso staff sy'n gweithio'n benodol mewn gwasanaethau iechyd a sefydliadau partner, i gydnabod y rôl sydd ganddynt wrth hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, cefnogi newid ymddygiad a chyfrannu at leihau'r risg o glefyd cronig. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn ymestyn nid yn unig i'w rhyngweithio â chleientiaid/cleifion, ond hefyd i'w hiechyd a'u lles eu hunain a iechyd eu ffrindiau, eu teuluoedd a'u cydweithwyr.
Er mwyn bod yn llwyddiannus, ni ddylid ystyried GBCG fel menter iechyd cyhoeddus ar wahân, ond mae'n rhan o'r hyn rydyn ni i gyd yn ei wneud. Bydd mabwysiadu'r dull hwn yn ein galluogi i symud i sefyllfa lle mae trafod ffordd o fyw a lles yn arferol, yn anfeirniadol ac yn rhan annatod o gyfrifoldeb proffesiynol a chymdeithasol pawb.

Mae llawer o fanteision i GBCG, gan gynnwys

- Gall gweithredu GBCG gefnogi sefydliadau i gyflawni eu cyfrifoldebau craidd tuag at iechyd a lles eu poblogaeth leol.
- Gall gynorthwyo sefydliadau i gyflawni cyfrifoldebau tuag at eu gweithluoedd, er enghraifft drwy wella ymwybyddiaeth staff o faterion iechyd a lles; ac o ran gwella sgiliau, hyder a chymhelliant staff ac o bosibl dod â gwelliannau i iechyd a lles staff.
- Gellir ymgorffori gweithgaredd GBCG fel rhan o fentrau gwella iechyd neu wella'r gweithlu presennol, er enghraifft, wrth fynd i'r afael â mynediad at ddewisiadau bwyd iachach.

- Gall GBCG fod yn effeithiol wrth helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac effaith penderfynyddion ehangach iechyd, trwy gefnogi newid ymddygiad unigol. Er enghraifft, mae rhai gwasanaethau lleol yn defnyddio'r dull i ymgysylltu â phoblogaethau lleol wrth reoli dyled, gweithredu tuag at gael gwaith neu fynd i'r afael â materion tai.

**Darparu cyngor a chymorth**

Mae nifer o'r sefydliadau BGC yn darparu cyngor a chefnogaeth i breswylwyr ar nifer o faterion, gyda chostau byw / cymorth tlodi yn dod yn ganolbwynt cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yng **Nghyngor Sir Caerfyrddin**, mae'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid o fewn Marchnata a'r Cyfryngau yn darparu gwasanaethau a chymorth amrywiol i gwsmeriaid, gan gynnwys trin cysylltiadau drwy wasanaethau ffôn ac wyneb yn wyneb. Mae'r adran hefyd yn cydweithio â sefydliadau partner lluosog i wella darparu gwasanaethau. Gall cwsmeriaid gyrraedd yr adran gwasanaeth drwy'r brif linell ffôn neu wyneb yn wyneb yn lleoliadau Hwb a Hwb Bach y Wlad. Mae'r Ganolfan Gyswllt yn ymdrin â thua 180,000 o alwadau'n flynyddol, gan fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwastraff, ailgylchu, priffyrdd, addysg, tai a thaliadau, gyda'r Hwb yn darparu gwasanaethau cymhleth ychwanegol, gan gynnwys y dreth gyngor, budd-daliadau tai, bathodynnau glas, a thrwyddedu.
Mae'r fenter Hawliwch yr hyn sy’n Ddyledus, a gychwynnwyd ym mis Mai 2021, yn cynnig cefnogaeth gyfannol i gwsmeriaid, gydag Ymgynghorwyr Hwb yn ymdrin â 4,306 o atgyfeiriadau ac yn ymestyn gwasanaethau i ardaloedd gwledig drwy Hwb Bach y Wlad.

Crëwyd y **Cynllun Diogelu Camfanteisio Ariannol Safonau Masnach (FESS)** yn 2014 i atal twyll yn erbyn pobl fregus. Mae'r cynllun yn cysylltu gweithgareddau atal twyll a diogelu ariannol safonau masnach presennol â gofynion polisi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 20151. Mae'r FESS yn atgyfnerthu deg prosiect diogelu ariannol yn un portffolio gyda'r nod o hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles trigolion lleol ac mae'n cynnwys prosiectau fel Blocio a Monitro Galwadau Niwsans Gwir Alwad, Cynllun Masnachwyr Dibynadwy Prynu gyda hyder ac ymyriadau dyled ac iechyd meddwl.

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru** yn darparu gwasanaethau ac adnoddau amrywiol sydd ar gael ar gyfer rheoli a chyfathrebu perygl llifogydd. Mae Hwb Cwsmeriaid CNC yn cynnig cyngor a gwybodaeth gyffredinol, ac mae Canolfan Cyfathrebu Digwyddiad CNC, sy'n gweithredu 24/7 yn cefnogi adrodd am ddigwyddiadau. Mae canolfan alwadau Floodline hefyd yn darparu cyngor a gwybodaeth am lifogydd. Nodwyd cyfleoedd i gynyddu cydweithio â phartneriaid i deilwra cyngor perygl llifogydd i sectorau penodol e.e. cynnwys gwybodaeth perygl llifogydd gydag ap gwybodaeth tenantiaid CSG a sicrhau bod y tudalennau perygl llifogydd yn cyfeirio at wybodaeth sy'n seiliedig ar argyfwng yr Awdurdod Lleol.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaethau cyngor a chymorth gyda'r nod o wella diogelwch a lles y cyhoedd. Maent yn darparu gwybodaeth am ddiogelwch y cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, a gorchudd ymateb brys ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r gwasanaethau allweddol yn cynnwys y Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref, sy'n cynnwys cyngor ac offer diogelwch yn y cartref fel larymau mwg a larymau carbon monocsid os oes angen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned a phartneriaid wrth ymweld ag ysgolion, cynnal ymweliadau Diogel ac Iach a gorfodi deddfwriaeth diogelwch tân.

**Canfyddiadau**

- Ymchwiliwyd i'r Safonau cenedlaethol ac roedd aelodau gorchwyl a gorffen yn credu bod y gofynion yn eithaf beichus ac yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau pwrpasol (ariannol a dynol) i weithio tuag at achredu. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i edrych ar hyn ar lefel genedlaethol.
- Adolygwyd yr hyfforddiant Lefel 1 GBGC a chredai'r aelodau y byddai'r modiwl rhagarweiniol hwn yn rhoi lefel dda o wybodaeth i staff gwasanaethau cyhoeddus ar y rheng flaen ynghylch sgyrsiau llesiant a sut i nodi cyfleoedd i drafod / cyfeirio aelodau'r cyhoedd at gyngor a chefnogaeth.
- Mae perthnasoedd gwaith da ar waith rhwng sefydliadau'r BGC; fodd bynnag, mae'n amserol ffurfioli trefniadau ac edrych ymhellach i brotocolau rhannu gwybodaeth ac ystyried y gwaith sy'n cael ei arwain gan Llesiant Delta i lansio platfform rhannu data.

| | | |
|---|---|---|
| • Mae cyfle hefyd i wella'r ffordd y mae sefydliadau BGC yn cyfeirio i'w gilydd ac roedd aelodau'n credu y gallai tudalen wybodaeth ar-lein (a allai gael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin) gael ei datblygu a'i chadw'n gyfredol. Byddai hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd sefydliadol a darparu gwybodaeth i bartneriaid eraill nad ydynt o bosibl yn darparu cyngor yn uniongyrchol (e.e. cymorth Lles Myfyrwyr drwy'r Brifysgol a Cholegau). | | |
| **I drafod a chytuno:**<br>• Datblygu presenoldeb ar y we ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau cyngor a chymorth a ddarperir ar draws y sefydliadau BGC yn cael eu hyrwyddo a'u cydlynu.<br>• Bod aelodau staff rheng flaen allweddol o fewn sefydliadau BGC yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant Lefel 1 GBCG (e-ddysgu).<br>• Bod y grŵp yn parhau i gwrdd i ganolbwyntio ar y mewnwelediad sy'n wynebu ein cymunedau a grwpiau a warchodir yn benodol. | **A oes angen penderfyniad?** | **Ie** |
| **Cynigiwyd gan** | | |
| **Llinos Evans, Tîm Cefnogi BGC** | | |